

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc  
ac Addysg**

**Children, Young People  
and Education Committee**

Eluned Morgan AS,  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS,  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS,  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

25 Hydref 2022

**Cais am wybodaeth**

Annwyl Weinidog a Dirprwy Weinidogion,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref, yn dilyn y cais a wnaethpwyd gennym ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, am ystod o wybodaeth. Gwnaethom drafod eich llythyr yn ystod ein cyfarfod ar 19 Hydref 2022. Roeddem yn unfrydol ynghylch y sylwadau a fynegir isod.

O ran y cyd-destun ar gyfer ein cais, gwnaethom benderfynu ysgrifennu ar y cyd yn sgil y ffaith bod meysydd o ddiddordeb cyffredin i'n Pwyllgor ni a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl. Roeddem o'r farn y byddai gweithredu ar y cyd yn sicrhau bod y broses o wneud ceisiadau yn fwy syml a chydlynol, ac y byddai hynny'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y Llywodraeth a phwyllgorau sydd â chylchoedd gwaith gwahanol ond sydd â meysydd amlwg o ddiddordeb cyffredin. Roeddem yn teimlo y byddai gweithredu ar y cyd hefyd yn lleihau'r baich ar Lywodraeth Cymru o ran ymateb i geisiadau dyblyg am fathau tebyg o wybodaeth. Mae iechyd meddwl yn un o flaenoriaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru, ac yn yr un modd, mae gan bwyllgorau ar draws y Senedd ddiddordeb yn y mater pwysig hwn.

Gwaith pwyllgorau'r Senedd yw craffu ar Lywodraeth Cymru. Mae'r broses o gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn anghenraid sylfaenol er mwyn cyflawni'r rôl bwysig hon. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn ailadrodd ein cais am ddiweddariad ynghylch y gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad nodedig y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, sef 'Cadernid Meddwl'. Roedd yr

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565



**Senedd Cymru  
Welsh Parliament**

adroddiad hwnnw yn ddogfen bwysig a oedd yn dangos effaith gadarnhaol gwaith craffu, a'r rôl bwysig y gall y gwaith hwnnw ei chwarae o ran gwella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ran penderfyniad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i wneud gwaith dilynol ar y cynnydd a wnaed yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol, roedd hwnnw'n feincnod pwysig yr ydym am adeiladu arno.

Yn ein llythyr ar y cyd, gwnaethom ddau gais am wybodaeth: un cais yn ymwneud ag iechyd meddwl amenedigol, lle mae gwybodaeth wedi dod i law; a chais arall ynghylch 'Cadernid Meddwl', lle'r ydym yn parhau i aros am y wybodaeth dan sylw. Mae eich llythyr yn tynnu sylw at ddau gyfle lle byddai modd trafod y materion sy'n weddill. Fodd bynnag, sesiynau gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd y rheiny. Felly, nid oeddent yn rhoi cyfle i'n Pwyllgor ni drafod y materion hyn gyda chi. Nodwn hefyd fod yn rhaid blaenoriaethu'r materion sy'n cael eu codi yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amser cyfyngedig sydd ar gael. O bryd i'w gilydd, mae gwybodaeth ysgrifenedig yn ffordd llawer mwy effeithiol o rannu gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor a'r Llywodraeth. Byddwch yn nodi nad ydym wedi cymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd na'r Dirprwy Weinidogion ers ein gwaith craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr 2022. Yn ein barn ni, mae hyn yn tanlinellu rhesymoldeb ein cais.

Fel arfer, mae proses yn cael ei dilyn pan fo materion yn codi yn sgil cais a wneir gan Bwyllgor. Yn gyffredinol, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn siarad â'r Clerc er mwyn darparu eglurhad pellach, a byddant yn cytuno ar ddyddiad cau diwygiedig. Rydym yn nodi na ddigwyddodd hyn yn yr achos hwn. Hyd y deallwn, nid oedd unrhyw awgrym na fyddai'r dyddiad cau yn cael ei fodloni, ac ni ddarparwyd diweddariad ynghylch pam nad oedd yr ymateb dan sylw wedi dod i law. Yn wir, ni chawsom eich ymateb am dros bum wythnos, ac yn yr ymateb hwnnw, gwnaethoch wrthod darparu'r wybodaeth a oedd yn weddill.

Yn eich llythyr, rydych yn nodi nad oes unrhyw ymrwymiad i ddarparu diweddariadau ysgrifenedig cyfnodol ar y materion sy'n weddill. Rwyf yn sicr eich bod yn ymwybodol nad oes angen ymrwymiad o'r fath i ddarparu diweddariadau ysgrifenedig. Os yw un o bwyllgorau'r Senedd yn dymuno gwneud cais am ddiweddariad ynghylch maes polisi penodol, mae o fewn ei allu i wneud cais o'r fath, ac mae disgwyliad rhesymol i Lywodraeth Cymru ddarparu'r wybodaeth honno.

Ar hyn o bryd, rydym yn trafod cymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch. Mae'r diweddariad ynghylch 'Cadernid Meddwl' yn berthnasol i'n trafodaethau ar y mater pwysig hwn. Felly, rydym yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon i ni erbyn **dydd Llun 14 Tachwedd** fan bellaf. Bydd hyn yn caniatáu inni ystyried y wybodaeth cyn inni gymryd tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ar 23 Tachwedd.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

